Canon Daniel Silvan Evans , 1818–1903
Offeiriad, golygydd a geiriadurwr

Ar fore Sul 11 Ionawr 1818 y ganwyd Silvan Evans a hynny ym Mron Wilym Uchaf, Llannarth, Ceredigion. Mab ydoedd i Silvanus a Sarah Evans. Dysgodd ddarllen mewn ysgol oedd wrth ymyl bwthyn ei dad, a chan iddo ddangos addewid, aeth i ysgol Dr Phillips, Neuadd-lwyd a gedwid mewn tŷ bychan ryw ddwy filltir o'i gartref. Treuliodd dair blynedd yno gan ymddiddori mewn Lladin a Groeg a dechrau pregethu gyda'r Annibynwyr.

Ym 1840 aeth i Goleg yr Annibynwyr yn Aberhonddu ond byr fu ei arhosiad yno ac aeth yn athro ysgol am bum mlynedd. Yn y cyfnod hwn cyhoeddodd gasgliad o ganeuon ac ysgrifau yn dwyn y teitl *Blodeu Ieuainc*. Priododd â Margaret Walters o Geredigion, ac ymunodd â'r Eglwys Sefydledig Ym 1845–46 aeth i Goleg Dewi Sant, Llanbedr, ac yn ystod ei flwyddyn olaf yno fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn y Gymraeg. Yna dechreuodd ar waith mawr ei fywyd, sef ei eiriadur Saesneg a Chymraeg, gan ddilyn ei freuddwyd o weld geiriadur Cymraeg cyffelyb i'r *Oxford English Dictionary*. Cafodd fywyd caled a nifer o brofiadau chwerw; bu farw tri mab a thair merch iddo cyn 1887, ac ym 1889 bu farw ei briod mewn damwain. Dim ond un o'i saith o blant a'i goroesodd.

Urddwyd ef yn ddiacon ym 1848 gan Dr Bethel, Esgob Bangor, a bu'n gurad yn Llandegwning a Phenllech, Llŷn; fe'i hordeiniwyd ym 1849. O 1852–62 bu'n gurad Llangïan a Llanfihangel Bachellaeth, ac ym 1862 penodwyd ef i fywoliaeth Llanymawddwy. Ym 1876 derbyniodd reithoriaeth Llanwrin ac yno bu hyd ei farwolaeth. Fe'i gwnaed yn ganon ym 1889 gan yr Esgob Campbell. Penodwyd ef yn athro Cymraeg rhan amser yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, ym 1875 swydd a ddaliodd hyd 1884.

Dros y blynyddoedd golygodd nifer fawr o gyfrolau, gan gynnwys *Elfennau Seryddiaeth* (1851), argraffiad o *Y Bardd Cwsc* (1853), yr *Archeologia Cambrensis* dros y Cambrian

Archaeological Association, a hefyd cylchgrawn *Y Brython* o 1858–60. Ysgrifennodd erthyglau i'r *Gwyddoniadur* ac ym 1856 cyhoeddodd ei gyfrol fechan, *Llythyraeth yr Iaith Gymraeg*. Yn ogystal a hyn cyfieithodd dri o'r *Four Ancient Books of Wales* a gyhoeddwyd gan Dr Skene, sef Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Aneirin a'r darnau prydyddol yn Llyfr Coch Hergest. Yr oedd ganddo gariad angerddol tuag at yr iaith Gymraeg ac fe ddywedodd O. M. Edwards mai ef oedd y cyntaf i ysgrifennu'n benodol ar lên gwerin yn y Gymraeg.

Ei waith mwyaf oedd ei eiriadur, a gweithiodd am ddeng mlynedd ar hugain mlynedd yn paratoi deunyddiau ar ei gyfer. Cyhoeddwyd ffrwyth ei waith mewn pedair cyfrol, sef y *Geiriadur Cymraeg* rhwng 1887 a 1896. Bu farw 13 Ebrill 1903 cyn gorffen y gwaith. Derbyniodd radd D. Litt. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru ym 1901 a chyhoeddwyd y bumed ran o'i eiriadur, hyd y llythyren E, ym 1906 gan Walter Spurrell.